**EITEM AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2007**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mae angen adrodd ynghylch unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i wrthbartïon yr Awdurdod i'r Awdurdod Tân.

### Cyflwyniad

**2.** Cymeradwywyd Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2007-2008 gan yr Awdurdod Tân yn Rhagfyr 2006. Ers eu cymeradwyo mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2007-2008 ymlaen wedi newid. Hefyd mae benthyciad PWLB newydd ac mae rhai newidiadau i restr y gwrthbartïon.

**Dangosyddion Darbodus 2006-2007**

**3.** Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2007-2008 wedi newid yn sgil llithriant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2006-2007.
Mae'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol yn fesur o ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r uchafswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau yn y llif arian; ac mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod fenthyca yn seiliedig ar asesu gofynion gweithredol a risgiau allanol. Mae'r tri phrif ddangosydd yma wedi newid ar gyfer 2007 -2008.
Mae cynnydd mewn gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd na chwblhawyd cynlluniau'n llawn yn 2006-2007 gan barhau yn 2007-2008.
Yn Atodiad A rhestrir y dangosyddion a adroddwyd yn Rhagfyr a'r dangosyddion diwygiedig.

**4. Aildrefnu Dyled**

Fe gymerwyd benthyciad PWLB newydd i ariannu gwariant cyfalaf, darperir manylion y benthyciad isod.

| Prif swm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 2,000,000 | 4.8 | 13/06/2007 | 45 ½ mlynedd | PWLB |

**Gwrthbartïon**

**5.** Gwneir yr holl fuddsoddiadau gyda gwrthbartïon cymeradwy ac mae staff Rheoli'r Trysorlys yn monitro statws credyd y gwrthbartïon. Os oes gostyngiad yn y statws credyd a'i fod yn gostwng yn is na'r criteria dewisol yna caiff ei dynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Rhestrir y gwrthbartïon presennol yn Atodiad B.

## Argymhellion

**6.** Argymhellir bod Aelodau'n

- cymeradwyo'r Dangosyddion darbodus diwygiedig
- nodi'r rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon
- nodi'r benthyciad a aildrefnwyd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | 2007/08<br>£ | 2008/09<br>£ | 2009/10<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>5,500,000<br>8,129,566 | <br>4,000,000<br>4,000,000 | <br>4,000,000<br>4,000,000 |
| 2 | Nawdd Cyfalaf Gofynnol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>15,951,000<br>16,170,000 | <br>18,785,000<br>19,101,000 | <br>21,323,000<br>21,734,000 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>19,950,000<br>20,170,000 | <br>22,785,000<br>23,101,000 | <br>25,323,000<br>25,734,000 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>15,951,000<br>16,170,000 | <br>18,785,000<br>19,101,000 | <br>21,323,000<br>21,734,000 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannol i Lif Ariannol Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>4.76%<br>4.20% | <br>6.19%<br>5.94% | <br>7.28%<br>7.04% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar Gyfraniadau gan yr Awdurdodau cysylltiedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>73,207<br>88,624 | <br>611,200<br>690,069 | <br>1,019,071<br>1,142,209 |

***ATODIAD B***

## BUDDSODDIADAU GWRTHBARTÏON

**Banciau terfyn £5m**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Cheltenham & Gloucester, National Westminster, Royal Bank of Scotland, Abbey, Halifax and the Bank of Scotland, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Bradford & Bingley, Anglo Irish Bank, Co-operative Bank, Clydesdale, Schroeders, Bristol & West, Irish Permanent, Depfa Bank, IIB Bank, Ulster Bank ac Citibank.

**Llywodraeth Ganol terfyn £5m**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Awdurdodau Lleol terfyn £2m**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i derfyn treth y cyngor a praeseptau dan Adran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cymdeithasau Adeiladu £2m**
Britannia, Chelsea, West Bromwich, Nationwide, Portman, Skipton, The Principality, Coventry, Newcastle a Yorkshire.